| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19 Rhagfyr, 2016** |
| **Pwnc:** | **Gwaith gwella ar y briffordd rhwng Cyffordd 3 ar yr A55 a Wylfa Newydd ar hyd yr A5 a'r A5025** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd John Arwel Roberts** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dewi Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Arwel Roberts / Emma Collett**<br>**Est 2311/2313**<br>**arrht@ynysmon.gov.uk**<br>**emcpl@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A –Argymhelliad / argymhellion a Rhesymau**

**ARGYMHELLIAD:**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i:

(a) ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, gwneud a chyflwyno Gorchymyn/ Gorchmynion Prynu Gorfodol (GPG) yn unol ag adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981 a'r holl bwerau eraill y mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn ystyried eu bod yn angenrheidiol mewn perthynas â gwneud a chyflwyno GPG mewn perthynas â'r cyfan neu ran o'r tir a amlinellir mewn coch ar y Cynlluniau GPG yn Atodiad 1 ac unrhyw dir arall y gellir ystyried ei fod yn angenrheidiol i wneud y gwaith ar yr A5025 gan gynnwys unrhyw gamau lliniaru;

(b) ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, gwneud a chyflwyno unrhyw Orchmynion Ffyrdd Ochr (GFfO) ac unrhyw orchmynion priffyrdd eraill sy'n angenrheidiol i alluogi cyflawni'r gwaith ar yr A5025;

(c) ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y gellir gwneud, cadarnhau a gweithredu'r GPG, unrhyw GFfO ac unrhyw orchmynion priffyrdd eraill, gan gynnwys cyhoeddi a chyflwyno'r holl hysbysiadau, ceisiadau am wybodaeth a datganiadau o resymau, ynghyd â pharatoi a chyflwyno achos y Cyngor mewn unrhyw ymchwiliad cyhoeddus i sicrhau cadarnhau'r GPG a'r GFfO gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

(ch) ar ôl cael cadarnhad o'r Gorchymyn/Gorchmynion Prynu Gorfodol, defnyddio'r pwerau a roddwyd gan y Gorchymyn Prynu Gorfodol perthnasol i gaffael tir a / neu

hawliau neu gaffael tir a / neu hawliau trwy gytundeb;

(d) ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, gwneud cytundebau y mae’r Pennaeth Gwasanaeth yn ystyried eu bod yn briodol gyda thirfeddianwyr a phobl eraill sydd â diddordeb yn y tir sy'n destun y Gorchymyn/Gorchmynion Prynu Gorfodol i gaffael tir / hawliau a / neu i sicrhau y tynnir yn ôl wrthwynebiadau i'r GPG a’r GFfO;

(dd) ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, gwneud unrhyw daliadau iawndal angenrheidiol (gan gynnwys taliadau interim) naill ai fel y cytunwyd gyda pherchnogion tir neu fel y penderfynir gan Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys mewn perthynas â chaffael buddiannau tir.

**RHESYMAU**

GEIRFA

| | |
|---|---|
| GPG | Gorchymyn Prynu Gorfodol |
| PNHWC | Pŵer Niwclear Horizon Wylfa Cyf; |
| CIP | yw'r Cytundeb Indemniad Paratoadol rhwng CSYM a PNHWC dyddiedig 21 Medi, 2016 |
| GFfO | Gorchymyn Ffordd Ochr |
| GRhT | Gorchymyn Rheoli Traffig |
| Deddf 1980 | yw Deddf Priffyrdd 1980 |
| Deddf 1990 | yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| Adroddiad 20 Mehefin | Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith dyddiedig 20 Mehefin, 2016 |

Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn perthynas â chynigion Pŵer Niwclear Horizon Wylfa Cyf; (PNHWC) i gyflwyno cais am ganiatâd datblygu ar gyfer gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa, Ynys Môn (Wylfa Newydd) ac yn benodol y gwaith gwella y mae angen ei wneud ar y briffordd rhwng Cyffordd 3 yr A55 yn y Fali a Wylfa Newydd ar hyd y fynedfa i’r safle ar yr A5 a'r A5025 ( "Gwaith ar yr A5025"). Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Mehefin 2016 (" Adroddiad 20 Mehefin") mae angen tir trydydd parti i allu gwneud gwaith ar yr A5025 ac felly mae’n debygol y bydd angen i’r Cyngor ddefnyddio pwerau caffael gorfodol a phwerau priffyrdd eraill i gael y tir.

Yn yr adroddiad ar 20 Mehefin sydd wedi ei atodi i'r adroddiad hwn yn Atodiad 2, mae disgrifiad manwl o'r Gwaith ar yr A5025, gan gynnwys esboniad o'r elfennau ar-

lein ac all-lein a dywedir ynddo hefyd pam y gellid bod angen defnyddio pwerau caffael gorfodol. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar ddyluniad manwl y gwaith ar yr A5025. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd PNHWC wedi cychwyn ei ymgynghoriad cyn-ymgeisio o dan adran 61Z o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ( "Deddf 1990") ar gyfer Gwaith Ar-lein. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau yn ystod Rhagfyr 2016 / Ionawr 2017. Felly, disgwylir y cais cynllunio ar gyfer y gwaith ar-lein yn ystod Ionawr / Chwefror 2017. Y dyddiad targed ar gyfer cyflwyno cais am y gwaith all-lein yw Gwanwyn 2017. Yn sgil trafodaethau gan PNHWC, a thrwy ymgynghori â thirfeddianwyr a deiliaid yn ogystal â thrafodaethau rhwng y Cyngor a PNHWC, llwyddwyd i fireinio ymhellach y tir hwnnw y gall bod angen Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG) ar ei gyfer.

Yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2016, ystyriodd y Pwyllgor Gwaith adroddiad dyddiedig 20 Mehefin a phenderfynodd awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i wneud cytundeb indemniad fel y byddai PNHWC yn gyfrifol am yr holl gostau a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddefnydd o bwerau caffael gorfodol y Cyngor ac, ar ôl cwblhau'r cytundeb indemniad, awdurdodwyd cymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer gwneud a chyflwyno Gorchmynion Prynu Gorfodol, Gorchmynion Ffyrdd Ochr (GFfO) ac unrhyw Orchmynion eraill sy'n angenrheidiol ("y Gorchmynion ") ac, yn ogystal, awdurdodwyd y Pennaeth Gwasanaeth i drafod a gwneud cytundebau i gaffael tir a hawliau yn wirfoddol.

Er bod y camau paratoadol ar gyfer y Gorchmynion wedi eu hawdurdodi, nid yw'r penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mehefin 2016 yn awdurdodi gwneud, cyflwyno na gweithredu'r Gorchmynion ac felly mae'n rhaid cael awdurdod pellach gan y Pwyllgor Gwaith i fwrw ymlaen â'r gwaith ar yr A5025.

<u>Pwerau Prynu Gorfodol</u>

Mae pwerau'r Cyngor i brynu tir a diddordebau mewn tir ar sail orfodol fel y gellir gwneud gwaith ar yr A5025 wedi eu cynnwys yn Neddf Priffyrdd 1980 ( "Deddf 1980"). Gall y Cyngor arfer y pwerau o dan Ddeddf 1980 fel yr awdurdod priffyrdd. Mae crynodeb o bwerau caffael gorfodol perthnasol y Cyngor fel a ganlyn:

| **Yr Adran yn Ndeddf 1980** | **Disgrifiad o'r Pŵer / Gofyniad** |
|---|---|
| A.239 (1) ac A.240 | Mae gan y Cyngor bŵer i gaffael yn orfodol y tir y mae ei angen i adeiladu priffyrdd newydd a gwella priffyrdd |
| A.246 | Gall y Cyngor brynu tir er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar amgylchedd priffordd, sef effeithiau a achoswyd neu a fydd yn cael eu hachosi gan fodolaeth neu'r defnydd o briffordd sydd wedi ei hadeiladu neu ei gwella ganddo, neu y mae'n bwriadu ei hadeiladu neu ei gwella. |
| A.282 | Rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud unrhyw waith lliniaru o'r fath |

| | |
|---|---|
| A.249 | Yn pennu ba mor bell o ganol y briffordd gyfredol neu’r briffordd newydd y caniateir i’r Cyngor brynu tir. |
| A.250 | Yn rhoi pŵer i’r Cyngor gaffael hawliau dros dir, drwy gaffael hawliau sy'n bodoli eisoes a thrwy greu hawliau newydd |
| A. 260 | Yn caniatáu i'r Cyngor ddiystyru cyfamodau cyfyngu a hawliau trydydd parti lle mae tir a gafaelwyd drwy gytundeb wedi ei gynnwys mewn gorchymyn prynu gorfodol |

Mae materion gweithdrefnol sy'n ymwneud â chyflwyno a gwneud GPG wedi eu cynnwys yn Neddf Caffael Tir 1981.

Bydd y Gwaith ar yr A5025 yn golygu altro ac, o bosib, cau ffyrdd ochr a mynedfeydd. Mae'r pwerau statudol ar gyfer gwneud GFfO hefyd wedi eu cynnwys yn Neddf 1980. Mae crynodeb o bwerau'r Cyngor isod:

| **Yr Adran yn Neddf 1980** | **Disgrifiad o'r Pŵer / Gofyniad** |
|---|---|
| A. 14 | Rhoi'r pŵer i'r Cyngor gau, gwyro, gwella, codi, gostwng uchder neu mewn ffordd arall unrhyw briffordd sy'n croesi neu'n ymuno â llwybr y ffordd sy’n cael ei hadeiladu neu ei gwella neu sy’n cael ei heffeithio neu’n mynd i gael ei heffeithio gan y gwaith adeiladu a gwella.<br><br>Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer adeiladu priffordd newydd (dros dro neu barhaol) at ddibenion sy'n ymwneud ag unrhyw newid o'r fath neu unrhyw ddiben arall sy'n gysylltiedig â'r ffordd neu adeiladu’r ffordd. |
| A. 125 | Rhoi'r pŵer i'r Cyngor gau mynedfeydd preifat i adeiladau sy'n gyfagos neu’n ffinio â’r briffordd sy’n cael ei adeiladu neu ei gwella, a lle bo'n briodol, bŵer i ddarparu dull amgen o sicrhau mynediad |

Mae’n debygol hefyd y bydd angen Gorchmynion Rheoli Traffig (GRhT) er mwyn sicrhau bod y traffig yn symud yn hwylus ac er budd diogelwch y ffyrdd. Bydd GRhT yn cwmpasu gwaharddiadau ar droi, cyfyngiadau llwytho ac aros, cyfyngiadau cyflymder, a chlirffyrdd. Bydd y Cyngor yn gwneud unrhyw Orchmynion Rheoli Traffig sy’n angenrheidiol maes o law.

Hysbysir y rheini sydd â diddordeb perthnasol yn y tir sy'n destun Gorchymyn Prynu Gorfodol a bydd ganddynt hawl i gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru. Gellir cyflwyno sylwadau hefyd ar GFfO. Bydd gan y rheini sydd â diddordeb ond na

chaffaelir eu tir (gwrthwynebwyr anstatudol) hawl i gyflwyno sylwadau hefyd. Os bydd angen, trefnir ymchwiliad lleol cyhoeddus lle bydd Arolygydd yn ystyried gwrthwynebiadau ac wedyn yn gwneud argymhelliad ynghylch a ddylid cadarnhau'r GPG a'r GFfO. Bydd raid i'r Cyngor fynychu unrhyw ymchwiliad ac ymateb i wrthwynebiadau.

Mae'r Gorchmynion perthnasol yn cael eu paratoi, a hynny'n unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mehefin 2016 ac, yn amodol ar benderfyniad priodol gan y Pwyllgor Gwaith, disgwylir iddynt fod yn barod i'w gwneud a'u cyflwyno erbyn mis Chwefror 2017.

Y Gwaith y bydd angen ei wneud, Amseriadau a Dull

Ceir disgrifiad manwl o'r gwaith ar-lein ac all-lein yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Mehefin. Ers yr adroddiad hwnnw, mae'r gwaith ar-lein wedi cael ei sgrinio gan y Cyngor yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2016 ac mae'r Cyngor wedi penderfynu nad oes gofyn cynnal asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd ar gyfer y gwaith ar-lein.

Rhaglennwyd y bydd y cais cynllunio ar gyfer gwaith ar-lein yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr / Chwefror 2017 yn dilyn yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio a wneir o dan Adran 61Z o Ddeddf 1990. Mae angen y gwaith ar-lein o flaen llaw fel cam lliniaru ar gyfer Wylfa Newydd a bydd yn gwella cyflwr y ffordd. Er mwyn gallu cwblhau Wylfa Newydd ar amser mae angen gwneud y gwaith ar-lein cyn cychwyn ar y prif waith adeiladu ar gyfer Wylfa Newydd. Bwriad PNHWC felly yw ariannu'r gwaith ar-lein i'w gwblhau cyn gynted ag y bo modd ar eu risg eu hunain ac (yn amodol ar ganiatâd cynllunio a chadarnhau'r Gorchmynion). Bydd y gwaith ar-lein yn cychwyn yn hwyr yn 2017 / dechrau 2018.

Fel y nodwyd yn Adroddiad 20 Mehefin, bydd y gwaith all-lein yn rhan o gais ar wahân a gyflwynir yn ddiweddarach. Y dyddiad targed ar gyfer cyflwyno'r cais hwn yw Gwanwyn 2017. Rhagwelir y bydd y gwaith all-lein yn cychwyn ar ôl cael Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer yr orsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig (a ragwelir yn 2019 ar hyn o bryd).

*Wylfa i Amlwch*

Yn Adroddiad 20 Mehefin, nodwyd bod PNHWC hefyd yn ystyried a oes angen gwneud unrhyw waith i wella'r A5025 o Wylfa Newydd i Amlwch. Mae PNHWC wedi cadarnhau yn ei ymgynghoriad cyhoeddus diweddaraf (PAC2) ei bod yn debygol na fydd angen gwneud gwaith i ledu'r ffordd na gwelliannau geometreg iddi, ond bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda PNHWC i ddeall yr effaith ar y ffordd hon a ffyrdd eraill ar Ynys Môn er mwyn ymchwilio i ble allai fod angen gwneud gwaith lliniaru.

Y tir y bydd ei angen i gyflawni'r gwaith

Mae cynlluniau ynghlwm sy'n dangos maint y tir y bydd ei angen i wneud y gwaith ac y ceisir pwerau caffael gorfodol yn ei gylch ("y Cynlluniau GPG"). Cynhyrchwyd y

Cynlluniau GPG hyn yn dilyn gwaith mireinio pellach mewn perthynas â’r tir y bydd ei angen, a bu modd gwneud hynny oherwydd y camau paratoadol sydd bellach wedi eu cymryd (a drafodir ymhellach isod). Er bod PNHWC wedi gwneud rhai cytundebau gyda thirfeddianwyr i gaffael y tir a’r buddiannau y bydd eu hangen i wneud y gwaith, mae yna ardaloedd o dir sylweddol nad oes cytundeb yn eu cylch, ac er y bydd y trafodaethau a’r negodi’n parhau, mae'n debygol y bydd angen pwerau caffael gorfodol i sicrhau'r tir ac i sicrhau na fydd unrhyw ddiddordebau trydydd parti yn atal y gwaith rhag digwydd.

Y Gwaith ar yr A5025 - Amcanion, Angen a Chymorth Polisi

Nodir yr amcanion, y cymorth polisi a’r angen am y gwaith mewn peth manylder yn Adroddiad 20 Mehefin. Yn arbennig, dylid nodi y cefnogir y Gwaith ar yr A5025 gan y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer cynhyrchu Pŵer Niwclear Newydd yn Wylfa (CSYM) (2014), y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) a Chynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd Gogledd Cymru 2015. Mae angen gwneud y gwaith ar yr A5025 er mwyn gallu adeiladu Wylfa Newydd a fydd o gymorth i fynd i'r afael â'r angen cenedlaethol dybryd am gapasiti cynhyrchu newydd.

Mae'r gwaith ar yr A5025 yn rhan bwysig o’r Prosiect Wylfa Newydd, ac mae ei angen fel rhan o'r strategaeth drafnidiaeth ehangach. Os rhoddir caniatâd ar gyfer y Prosiect, byddai angen i draffig adeiladu ddefnyddio'r A5025 o Gyffordd 3 ar yr A55 i’r gogledd o’r Fali i gyrraedd Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd.

Cynigir y bydd y gwaith ar-lein yn darparu ar gyfer y llif traffig yn y dyfodol, yn mynd i'r afael â'r effeithiau sy'n gysylltiedig â chamau cynnar y gwaith adeiladu ac yn sicrhau bod yr A5025 o ansawdd addas i hwyluso'r gwaith adeiladu a gweithredu'r Prosiect. Heb y gwaith gwella, gallai cynnydd mewn traffig arwain at ddirywiad pellach yng nghyflwr y ffordd, mwy o oedi i ddefnyddwyr y ffordd, mwy o berygl o ddamweiniau o bosib, ynghyd â niwsans i gymunedau lleol sydd ar hyd llwybr y ffordd.

Mae’r Adroddiad Asesu’r Cynllun a’r Archwiliad Diogelwch Ffordd Cam Un yn dangos nad yw’r A5025 rhwng y Fali a safle gorsaf bŵer Wylfa Newydd yn cwrdd â safonau priffyrdd cyfredol. Mae yna broblemau gyda’r ffordd gyfredol o ran ei lled, ei haliniad a’r cyfleoedd i basio cerbydau, sydd oll yn effeithio ar symudiad y traffig ar hyd y ffordd ar hyn o bryd.

Fel y soniwyd uchod, cefnogir y gwelliannau priffyrdd i'r A5025 gan y polisïau cynllunio sydd eisoes wedi eu mabwysiadau a’r rhai diweddarch. Mae polisïau FF2, FF5 a FF11 o Gynllun Fframwaith Gwynedd (1993) yn cadarnhau'r angen i ddarparu ar gyfer symudiad traffig hwylus. Mae’r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd (2005) yn cefnogi gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd yn enwedig lle mae angen cyfrannu tuag at yr economi leol, gwella diogelwch ar y ffyrdd a hyrwyddo hygyrchedd

(Polisïau TR2 a TR3). Mae Amcan 6 y CCA yn cadarnhau y dylai'r Prosiect hyrwyddo symud pobl a deunyddiau mewn modd cynaliadwy. Mae paragraff 6.7 o'r Canllawiau yn cadarnhau y gall bod angen gwella cyffyrdd a rhannau allweddol o ffordd i allu ymdopi â'r llif traffig ar yr adegau prysuraf (mae'r rhain yn cynnwys rhannau o'r A5025 a Chyffordd 3 (cyffordd yr A55 / A5).

Mae'r CDLl ar y Cyd bellach wedi bod trwy'r Gwrandawiadau ac mae'r Cyngor erbyn hyn wedi gwneud nifer o newidiadau i'r Cynllun sy'n ymateb i'r pwyntiau gweithredu a gododd o'r gwrandawiadau unigol (Newidiadau yn sgil materion a godwyd). Bydd angen ymgynghori'n ffurfiol ar y newidiadau hyn a chynnal rhagor o wrandawiadau os bydd angen. Ni chafwyd unrhyw arwydd o ran pa bryd y bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn debygol o ddigwydd.

Mae'r CDLl ar y Cyd (fel y'i diwygiwyd yn sgil y materion a godwyd) yn cyfeirio at yr angen i wella'r seilwaith presennol ac yn nodi, yn achos ffyrdd newydd, bod ystod lawn o atebion ymarferol i'r broblem drafnidiaeth wedi cael ei hystyried ac mai gwella'r ffordd yw'r datrysiad gorau posibl.

Mae'r CDLl ar y Cyd yn cadarnhau y caniateir gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth cyfredol ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â nifer o feini prawf. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau'r effaith ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol, cymryd cyn lleied o dir parhaol â phosib, dylunio o ansawdd da, gwella diogelwch ffyrdd a gwella hygyrchedd cyffredinol (Polisi TRA1). Mae paragraff 7.1.42 o'r CDLl ar y Cyd yn cadarnhau y bydd angen gwneud gwelliannau sylweddol i'r pedwar prif leoliad ar y llwybr rhwng y Fali a safle'r Orsaf Bŵer gan gynnwys:

- A5 / A5025 (Y Fali);
- A5025 (Llanfachraeth);
- A5025 (Llanfaethlu); ac
- A5025 (Cefn Coch) '.

Mae'r CDLl ar y Cyd yn cynnwys nodau i wella cysylltiadau i gyrchfannau a marchnadoedd allweddol, gwella mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau, cynyddu lefelau cerdded a beicio, gwella diogelwch a diogeledd ac, ar yr un pryd, dod â manteision a lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd. Mae Tabl 6.4 yn y CDLl ar y Cyd yn cadarnhau bod y gwaith gwella ar yr A5025 o'r Fali i Amlwch i baratoi ar gyfer Wylfa Newydd yn brosiect â chanddo flaenoriaeth ranbarthol.

Mae'r cynigion wedi cael eu dylunio'n sensitif i barchu maint a chymeriad yr ardaloedd o'u cwmpas, ac maent wedi eu dylunio i atal, i'r graddau y bo modd, unrhyw effeithiau niweidiol ar fwynderau preswyl cyfagos, derbynyddion ecolegol neu amgylchedd asedau treftadaeth.

Er bod angen gwneud gwaith ar-lein ac all-lein ar gyfer adeiladu Wylfa Newydd, bydd y gwaith ar-lein yn arwain at welliannau i'r ffyrdd, p'un a fydd Wylfa Newydd yn

mynd yn ei flaen ai peidio. Felly, ystyrir bod modd cyfiawnhau gwneud y gwaith yn gynnar cyn y rhoddir y Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

Nododd Adroddiad 20 Mehefin fod yna bolisi trafnidiaeth, economaidd a chynllunio ehangach ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol sy'n cydnabod budd cyhoeddus ehangach y gwaith ar-lein. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd gwella’r A55 / A5025 yn denu buddsoddiad pellach neu’n dod â manteision economaidd neu gymdeithasol sy’n ehangach na Wylfa Newydd ac felly ni ddylai’r Aelodau roi unrhyw bwys ar y rhain.

<u>Esblygiad y gwaith ac arfarniad o’r opsiynau</u>

Mae manylion a chefndir y dull dylunio wedi cael sylw helaeth yn Adroddiad 20 Mehefin. Yn unol â darpariaethau'r Cytundeb Cydweithio dyddiedig 1 Mehefin, 2016 rhwng PNHWC a'r Cyngor ac fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda PNHWC i ddatblygu dyluniad manwl y gwaith ar yr A5025 ac mae PNHWC yn parhau i ymgysylltu â Swyddogion Priffyrdd y Cyngor i gwblhau dyluniad terfynol y gwaith hwn.

<u>Ymgynghoriad cyhoeddus</u>

‘Roedd Adroddiad 20 Mehefin yn cynnwys manylion am yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2014, a Mehefin 2016. Ers hynny, cafwyd cyfnod arall o ymgynghori, sef ymgynghoriad cyn-ymgeisio statudol, sef PAC 2, a hynny rhwng 31 Awst a 25 Hydref, 2016.

Mae’r brif ddogfen ymgynghori PAC 2 yn trafod y gwaith ar yr A5025 ym mhennod 11 ac mae'n cynnwys tabl 11.5 sy’n nodi'r newidiadau dylunio allweddol yn dilyn yr ymgynghoriad. Mae'r tabl yn cadarnhau bod sylwadau a dderbyniwyd gan berchnogion eiddo ym Mai 2016 ynghylch, er enghraifft, mynedfeydd i eiddo yn union wrth ymyl yr A5025, wedi llywio’r cynllun manwl.

Y themâu allweddol a godwyd drwy'r ymgynghoriad PAC2 mewn perthynas â'r gwaith ar-lein i wella’r A5025 oedd

- Gwaith adeiladu yn effeithio ar dderbynyddion sy'n agos at yr A5025 (e.e. sŵn a llwch);
- Cydnabod bod angen gwneud gwelliannau i ddiogelwch y ffordd; ac
- Effeithiau ar drigolion lleol lle mae'r A5025 yn cwrdd â mynedfeydd preifat.

Ar hyn o bryd mae Horizon yn gweithio drwy'r ymatebion i PAC2 fel y gall eu hystyried a rhoi sylw iddynt cyn y bydd yn cyflwyno cais am y gwaith gwella priffyrdd ar-lein i Gyngor Sir Ynys Môn.

[Bydd PNHWC yn cynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio mewn perthynas â’r gwaith ar-lein fel sy'n ofynnol gan A.61Z o Ddeddf 1990.

<u>Trafodaethau PNHWC gyda Thirfeddianwyr</u>

‘Roedd Adroddiad 20 Mehefin yn egluro’r camau yr oedd PNHWC eisoes wedi eu cymryd i fynd i drafodaethau gyda thirfeddianwyr a’u bod, o ganlyniad, wedi caffael diddordebau mewn rhai o’r tiroedd trwy gytundeb (yn bennaf trwy opsiynau i brynu).

Bydd PNHWC yn parhau i drafod gyda thirfeddianwyr ac, unwaith y bydd y Pwyllgor Gwaith yn rhoi awdurdod i wneud a chyflwyno GPG, bydd y Cyngor hefyd yn cysylltu gyda thirfeddianwyr gyda'r bwriad o gaffael tir drwy gytundeb lle bo modd.

Cyfeirnodi Tir a Chyfathrebu gyda Thirfeddianwyr

Yn unol â'r awdurdod a gafwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mehefin 2016, cymerwyd camau paratoadol ar gyfer gwneud y Gorchmynion fel a ganlyn:

(a) cwblhau’r cytundeb indemniad angenrheidiol (rhagor o fanylion isod);

(b) penodi TerraQuest fel cyfeirnodwyr tir;

(c) yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mehefin 2016, mae'r Cyngor hefyd wedi ysgrifennu at dirfeddianwyr a phobl eraill sydd â diddordeb yn y tir, i egluro y bydd, efallai, yn defnyddio ei bwerau GPG ac i roi gwybod iddynt y byddai ymarferiad cyfeirnodi tir yn cael ei gynnal ;

(ch) ar ôl hynny, mae’r ymarferiad cyfeirinodi tir wedi cychwyn. Bydd y broses yn cynnwys asesiadau bwrdd gwaith o ddiddordebau tir, cyfeirnodwyr yn mynd o ddrws i ddrws i siarad gyda deiliaid yr eiddo a effeithir, gwneud ceisiadau statudol ffurfiol am wybodaeth ynghylch pwy yw perchnogion tir, dadansoddi ac asesu’r diddordebau hynny a dilyn i fyny’r ymholiadau fel y bo'n briodol; ac

(d) ar ôl ei gwblhau, bydd yr ymarferiad cynhwysfawr hwn i gyfeirnodi tir yn caniatáu i’r Cyngor baratoi rhestr gywir o ddiddordebau mewn tiroedd mewn perthynas â’r tiroedd hynny y byddir eu hangen ar gyfer y gwaith ar yr A5025 a bydd yn cael ei adlewyrchu yn y GPG a’r GFfO sy'n cael eu paratoi.

Fel y nodwyd uchod, ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, bydd y Cyngor yn cysylltu â thirfeddianwyr gyda golwg ar gaffael tir trwy gytundeb lle bo hynny'n bosib. Mae hyn yn cyd-fynd ag arfer gorau a chanllawiau’r Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodau lleol yn Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CLlCC) 14/2004 - "Cylchlythyr Diwygiedig ar Orchmynion Prynu Gorfodol". Bydd trafodaethau’n parhau i gael eu cynnal drwy gydol y broses prynu gorfodol. Gall methu â chydymffurfio â'r Cylchlythyr arwain at feirniadaeth, naill ai mewn unrhyw ymchwiliad cyhoeddus neu yn nes ymlaen mewn unrhyw anghydfod ynghylch iawndal.

Cyllido’r gwaith

Mae PNHWC yn parhau i hyrwyddo'r prosiect Wylfa Newydd gyda chymorth ei riant gwmni, sef Hitachi Cyf. Bydd costau’r gwaith ar yr A5025 yn cael eu hariannu'n llawn

gan PNHWC o dan A. 278 o Ddeddf 1980. Bwriedir cael un Cytundeb Adran 278 ar gyfer y Gwaith Ar-lein ac un arall ar gyfer y Gwaith All-lein a bod y ddau Gytundeb A278 yn nodi cyfres o becynnau gwaith, fel y bo'n briodol, ar gyfer yr elfennau ar-lein ac all-lein o'r Gwaith ar yr A5025. Mae'r Cyngor a PNHWC yn gweithio i roi'r Cytundebau hynny ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Bydd gwarantau priodol sy'n ymwneud â dyluniad y cynllun yn cael eu rhoi i'r Cyngor. Bydd yn rhaid cael cytundebau gwarant cyfochrog ar gyfer pob cytundeb A278 ar gyfer unrhyw rwymedigaethau posib oherwydd materion dylunio ar gyfer pob cam o'r Gwaith ar yr A5025.

Fel y nodwyd yn Adroddiad 20 Mehefin, bydd y gwaith o gaffael y tir a'r hawliau sydd eu hangen ar gyfer y gwaith, gan gynnwys sicrhau'r GPG, GFfO ac unrhyw orchmynion eraill, a rhwymedigaethau iawndal (Costau GPG), yn cael ei warantu gan PNHWC. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai un cytundeb indemniad ar gyfer y gost o baratoi, gwneud a chadarnhau'r GPG, yn ogystal â gweithredu'r Gorchmynion a thalu iawndal. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) a PNHWC wedi cytuno ar broses dau gam ar gyfer indemnio. Cwblhawyd Cytundeb Indemniad Paratoadol (CIP) ar 21 Medi 2016 ar gyfer unrhyw rwymedigaethau a all godi i'r Cyngor yn ystod camau paratoadol y broses GPG ac fe gwblheir ail Gytundeb Indemniad llawn (y Cytundeb Indemniad) yn o fuan lle bydd PNHWC yn gwarantu holl gostau a rhwymedigaethau iawndal y Cyngor mewn perthynas â'r GPG a'r GFfO. Cyn cwblhau'r Cytundeb Indemniad bydd y Cyngor yn bodloni ei hun bod PNHWC wedi darparu tystiolaeth bod ganddo adnoddau digonol i dalu'r indemniad hwn a, lle bo angen, bydd yn mynnu sicrwydd digonol ar gyfer y rhwymedigaethau posibl.

<u>Hawliau Dynol</u>

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 ("DHD" 1998") wedi ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn") mewn cyfraith ddomestig. Mae'r DHD yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gorff cyhoeddus weithredu yn groes i'r Confensiwn.

Mae'r Confensiwn yn cynnwys darpariaethau ar ffurf Erthyglau, a'u nod yw diogelu hawliau'r unigolyn. Wrth benderfynu gwneud gorchymyn GPG mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried hawliau perchnogion eiddo o dan y Confensiwn, yn enwedig

Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf - yn diogelu hawl pawb i fwynhau eu heiddo mewn heddwch. Ni all unrhyw un gael ei amddifadu o eiddo, ac eithrio er budd y cyhoedd ac yn unol â chyfreithiau cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol;

Erthygl 6 o'r Protocol Cyntaf - yn amddiffyn yr hawl i gael gwrandawiad teg. Mewn achosion i benderfynu ar hawliau sifil, mae'n gwarchod yr hawl i gael gwrandawiad cyhoeddus gerbron tribiwnlys annibynnol a diduedd o fewn amser rhesymol.

Erthygl 8 - gwarchod bywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth. Ni all yr un awdurdod cyhoeddus ymyrryd â'r hawliau hyn ac eithrio yn unol â'r gyfraith ac os yw'n angenrheidiol er budd diogelwch y wlad, diogelwch y cyhoedd, lles economaidd

y wlad, atal anrhefn neu drosedd, diogelu iechyd neu foesau, neu ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill;

Erthygl 14 – Sicrheir mwynhad o'r hawliau a'r rhyddid yn y Confensiwn heb wahaniaethu ar unrhyw sail megis rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, sy'n gysylltiedig â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.

Yn achos pob un o'r Erthyglau hyn (ac yn wir ddarpariaethau eraill yn y Confensiwn) mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r angen i daro cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolyn a buddiannau'r cyhoedd.

Yn hyn o beth, mae'r canlynol yn berthnasol:

- mae'r egwyddor o ddatblygu yn dderbyniol ac yn cael ei chefnogi gan bolisïau cynllunio sydd eisoes wedi eu mabwysiadu a rhai diweddarach;
- bydd y gwaith ar yr A5025 yn mynd i'r afael â diogelwch ar y ffyrdd ac yn lliniaru'r effeithiau ac yn caniatáu ar gyfer adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd;
- mae'r cynigion wedi cael eu dylunio'n sensitif i barchu maint a chymeriad yr ardal o'u cwmpas, ac wedi cael eu dylunio i leihau, cymaint ag y bod modd, unrhyw effeithiau niweidiol ar fwynderau preswyl cyfagos, derbynyddion ecolegol neu amgylchedd asedau treftadaeth. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith priffyrdd arfaethedig ar-lein yn digwydd o fewn y lôn gyfredol gyda rhywfaint o waith lledu, er enghraifft, rhoi wyneb newydd ar y ffordd bresennol ac ailgreu rhan o'r palmant ar gyfer y briffordd;
- creu swyddi ychwanegol gyda photensial am swyddi lleol yn ystod y gwaith adeiladu ; ac
- amgylchiadau gwell ar gyfer teithio i bobl nad ydynt yn defnyddio cerbydau modur ar hyd yr A5025 drwy roi gwell wyneb ar y ffordd.

Bydd y gwaith yn caniatáu ar gyfer adeiladu Wylfa Newydd, sef datblygiad a gefnogir yn llawn yn y polisi cynllunio cenedlaethol ac y mae angen amdano i helpu i fynd i'r afael â'r angen cenedlaethol dybryd am gapasiti cynhyrchu newydd. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn â'r effaith ar y tir a'r hawliau ar hyd llwybr arfaethedig y gwaith ar-lein ac all-lein (er bod y rhan fwyaf o'r tir a effeithir yn dir amaethyddol ac nid oes bwriad i gaffael yr un annedd y mae rhywun yn byw ynddi, ac ni fydd neb yn gorfod symud o'i gartref yn sgil y cynllun.)

Mae'r Pwyllgor Gwaith eisoes wedi ystyried effeithiau Hawliau Dynol yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2016. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, ystyrir bod y buddion cyhoeddus yn sgil adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd yn gorbwyso ymyrryd â hawliau preifat y rheini sydd â diddordeb mewn tir y mae'n debygol y byddir ei angen.

Defnyddio Pwerau Prynu Gorfodol

Mae defnyddio pwerau caffael gorfodol yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru lle mae achos cryf i wneud hynny er lles y cyhoedd. Dywed NAFWC 14 (2) – "*Barn Llywodraeth Cynulliad Cymru yw bod pwerau prynu gorfodol yn arf bwysig i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i'w defnyddio fel modd i gael gafael ar y tir sydd ei angen arnynt i gyflwyno newidiadau cymdeithasol ac economaidd. O'u defnyddio'n iawn, medrant gyfrannu tuag at adfywio trefol effeithiol ac effeithlon, anadlu bywyd newydd i gymunedau a hyrwyddo busnes – gan arwain at wella safon byw. Anogir cyrff sydd â phwerau prynu gorfodol felly – ar ba lefel bynnag – i ystyried defnyddio'r rhain yn rhagweithiol lle bynnag y bo hynny'n briodol i sicrhau y bydd preswylwyr a'r gymuned fusnes fel ei gilydd yn elwa, a hynny'n ddi-oed.*

Ystyrir fod yna achos cryf, er budd y cyhoedd, i wneud y gwaith ar yr A5025, sef gwaith y mae angen ei wneud i alluogi adeiladu gorsaf bŵer arfaethedig Wylfa Newydd. Mae gan Wylfa Newydd gefnogaeth polisi sylweddol ac mae angen yr orsaf i helpu i ddiwallu angen cenedlaethol dybryd am gapasiti cynhyrchu newydd. Mewn perthynas â'r gwaith ar-lein, er mwyn cwblhau Wylfa Newydd ar amser, mae angen iddo gychwyn cyn dechrau ar y prif waith adeiladu ar gyfer Wylfa Newydd. Bydd gwaith o'r fath yn cael ei wneud yn annibynnol ar y gwaith all-lein a bydd yn arwain at welliannau i'r ffordd, p'un a fydd Wylfa Newydd yn mynd yn ei flaen ai peidio. Ystyrir felly bod modd cyfiawnhau gwneud y gwaith ar-lein hwn yn gynnar. Mae cefnogaeth gref mewn polisïau cynllunio, economaidd a chludiant ar gyfer gwaith ar yr A5025.

Hefyd, nododd Adroddiad 20 Mehefin fod rhaid cadw'r profion canlynol mewn cof cyn defnyddio'r pwerau prynu gorfodol:

*(i) bod tystiolaeth glir y bydd y budd cyhoeddus yn gorbwyso'r golled breifat, o ystyried y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;*

Fel y nodwyd uchod, yng nghyd-destun hawliau dynol, ystyrir bod y buddion cyhoeddus yn sgil adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd yn gorbwyso ymyrryd â hawliau preifat y rheini sydd â diddordeb mewn tir y mae'n debygol y byddir ei angen.

*(ii) nid yw'r cynllun (yn yr achos hwn y gwaith ar yr A5025) y ceisir y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn ei gylch yn debygol o gael ei atal gan unrhyw rwystrau i'w weithrediad;*

Fel y nodwyd uchod, mae gan y Cyngor y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i lunio, cadarnhau a gweithredu unrhyw GPG, GFfO ac unrhyw orchmynion priffyrdd eraill. Y prif rwystrau eraill i weithredu fyddai methiant i sicrhau caniatâd cynllunio, gan y bydd y GPG a'r GffO yn amodol ar gael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith ar yr A5025; a diffyg arian ar gyfer naill ai'r gwaith ar yr A5025 neu gostau GPG ac iawndal.

Er bod yn rhaid i'r Cyngor, yn ei swyddogaeth fel awdurdod cynllunio lleol, ystyried y ddau gais cynllunio ar gyfer gwaith ar yr A5025 ar wahân, cydnabyddir i ddibenion yr

adroddiad hwn, nad oes ond modd rhoi caniatâd cynllunio os oes angen y gwaith a bod y polisïau'n cefnogi. Fel y nodir uchod, ac yn Adroddiad 20 Mehefin, mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Cynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd yn cefnogi'r gwaith ar yr A5025 ac mae angen gwneud y gwaith i alluogi adeiladu Wylfa Newydd, sef prosiect y mae cefnogaeth arwyddocaol iddo mewn polisïau cenedlaethol a lleol. Bydd cyllid ar gyfer y gwaith ar yr A5025 yn cael ei sicrhau drwy'r Cytundebau A.278 y bwriedir iddynt fod yn eu lle cyn gynted ag y bo modd a chyn unrhyw ymchwiliad ynghylch Gorchymyn Prynu Gorfodol. Sicrheir y cyllid ar gyfer ariannu costau GPG ac iawndal drwy'r Cytundeb Indemniad fydd yn cael ei gwblhau cyn i unrhyw Orchmynion gael eu gwneud.

*(Iii) bod syniad clir o sut y bydd y tir yn cael ei ddefnyddio a bod adnoddau angenrheidiol yn debygol o fod ar gael i gyflawni'r diben hwnnw o fewn amserlen resymol;*

Yn unol â darpariaethau'r Cytundeb Cydweithio fel yr adroddwyd yn flaenorol yn Adroddiad 20 Mehefin, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda PNHWC i ddatblygu dyluniad manwl y gwaith ar yr A5025. Bydd cyflwyno'r cais cynllunio ar gyfer y gwaith ar-lein a gwneud Cytundebau Adran 278 perthnasol yn sicrhau y bydd manylion clir am y gwaith y bydd ei angen ac, felly, sut bydd unrhyw dir sy'n destun GPG a / neu GFfO yn cael ei ddefnyddio.

O ystyried y gwaith partneriaeth o dan y Cytundeb Cydweithio, y trefniadau indemniad (sydd eisoes ar waith drwy'r CIP a'r trefniadau a fydd wedi eu sefydlu drwy Gytundeb Indemniad pellach cyn gwneud y Gorchmynion) a'r ymrwymiadau a wnaed gan PNHWC a'r Cyngor i wneud Cytundebau Adran 278 priodol ar gyfer y gwaith ar yr A5025, ystyrir bod digon o adnoddau o ran amser ac arian yn awr ac i'r dyfodol.

O ran amserlenni cyffredinol, bydd y cais cynllunio ar gyfer yr elfen ar-lein o'r gwaith ar yr A5025 yn cael ei gyflwyno cyn bo hir ac mae PNHWC yn rhagweld sicrhau caniatâd cynllunio a dechrau ar y gwaith ar -lein ar yr A5025 yn 2017.

